RHIFYN
ISSUE
41
03.09.21

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Bydd y plant yn gorffen yn yr ysgol ar gyfer gwyliau Hanner Tymor ar 22.10.21 ac yn dychwelyd ar 01.11.21. Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 17.12.21 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn ar 05.01.22. Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The children will finish school for the Half Term holiday on 22.10.21 and will return on 01.11.21 . The last day of the Autumn Term this year is on 17.12.21 at 3:30 pm. The children return for the Spring Term on 05.01.22. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2021-2022
INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.
This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	**04.01.22**	**25.04.22**
+3 i'w trefnu *TBA*		

FFOTOGRAFFYDD
PHOTOGRAPHER

Bydd John Newman yn ymweld â ni ar 28.09.21 er mwyn tynnu lluniau unigol. Unwaith eto eleni, dim ond plant sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion yn yr ysgol fydd yn cael eu lluniau wedi'u tynnu.
John Newman will be visiting us on ***28.09.21*** *to take individual pupil photographs. Once again this year, only pupils registered at school will be having their photgraphs taken during the school day.*





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

27.09.21 - Cyfarfod Tric a Chlic (Derbyn a Bl.1)
Tric a Chlic Meeting (Reception and Yr.1)
28.09.21 - Ffotograffydd yr ysgol yn ymweld
School Photographer visits
18.10.21 - Nosweithiau Agored 1 a 2
19.10.21 *Open Evenings 1 & 2*
20.10.21 - Brechiad y Ffliw (dyddiad arfaethedig)
Flu Vaccination (proposed date)
22.10.21 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term

CROESO NÔL
WELCOME BACK



Wel, dyma ni! Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ymlacio ac wedi mwynhau gwyliau braf. Mae tymor prysur iawn arall o'n blaenau wrth i ni groesawu 29 o blant Meithrin newydd i'n plith. Gobeithio y bydd y tymor hwn yn dod â rhyw fath o normalrwydd i ni!
Well, here we are! We hope everyone has had opportunity to relax and has had a good summer break. We have another busy term ahead of us as we welcome 29 new Nursery children to school. Let's hope this term brings with it some semblance of normality!

CYFEIRIAD EBOST NEWYDD YR YSGOL
SCHOOL'S NEW EMAIL ADDRESS

Rydym wedi derbyn cyfeiriad ebost newydd, bachog, hawdd ei gofio! Bydd yr hen gyfeiriad ebost yn derbyn ebyst am gyfnod ond gofynnir i chi ddiweddaru eich cofnodion a'ch llyfrau cyfeiriadau os gwelwch yn dda.
We have been provided with a new, catchy, easy to remember email address! The old email address will continue to receive emails for a period but you are asked to update your records and address books, please.

6742351_admin.ygggllantrisant@hwbcymru.net

ALERGEDDAU A BWYD
ALLERGIES AND FOOD



Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol at rai fwyddydd. Mae hyn yn cynnws cnau: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.
Hefyd, cofiwch dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.
Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to various food products. This includes nuts: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.
Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your cooperation.







CYFEIRIADAU EBOST
EMAIL ADDRESSES

Os oes angen cysylltu ag athrawon y dosbarthiadau i drafod materion lefel dosbarth, gweler y cyfeiriadau ebost isod. Gofynnir yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cyfeiriadau ebost hyn ar gyfer materion o frys gan nad yw'r athrawon yn edrych ar y cyfrifon ebost hyn yn ystod y dydd gan eu bod yn addysgu'r plant. Mewn argyfwng, cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol ar 01443 237837.

Should you need to contact the class teachers for any class based matters, please see the class email addresses below. You are kindly asked not to use these email addresses in any emergency situation as the teachers do not monitor these accounts during the day since they are teaching the children. In any emergency, please contact the School Office on 01443 237837.

Dosbarth 1	1d5@hwbcymru.net
Dosbarth 2	2d5@hwbcymru.net
Dosbarth 3	3d5@hwbcymru.net
Dosbarth 4	4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5	5d5@hwbcymru.net
Dosbarth 6	6d5@hwbcymru.net
Dosbarth 7	7d5@hwbcymru.net
Dosbarth 8	8d5@hwbcymru.net
Dosbarth 9	9d5@hwbcymru.net
Dosbarth 10	10d5@hwbcymru.net

ARIAN CINIO
LUNCH MONIES

Cost ciniawau ysgol yw £2.55 y dydd a gofynnir i bob rhiant dalu ar-lein ar gyfer ciniawau ysgol. Erbyn hyn, nid yw'r ysgol yn derbyn arian parod / sieciau. Ewch i dudalen hon gwefan yr ysgol am ragor o fanylion.

Bydd disgyblion newydd y dosbarth Meithrin yn derbyn manylion talu unwaith y bydd RCT yn eu rhoi nhw i ni gan obeithio ni fydd oedi!

The cost of school meals is ***£2.55 a day*** *with all parents kindly asked to pay for school lunches online. School no longer accepts cash or cheques. Visit this page on the school website for further details.*

New Nursery children will receive their payment details once RCT have provided us with them - hopefully this will not take too long!



PRESENOLDEB A SALWCH
ATTENDANCE AND ILLNESS

Gofynnir yn garedig i rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore erbyn 9:00 y.b. Os bydd plentyn yn dost neu ag apwyntiad meddygol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol trwy alwad ffôn neu lythyr diwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod arall o absenoldeb yn dilyn hyn os gwelwch yn dda. Os bydd apwyntiad meddygol gan blentyn, mae angen i Swyddfa'r Ysgol weld cerdyn / llythyr er mwyn bwydo hyn i mewn i system cofrestru'r ysgol. Gofynnir i bob rhiant anfon taflen TREFNIADAU DIWEDD Y DYDD at athrawon eu plant bob dydd Llun os gwelwch yn dda. Os bydd trefniadau yn aros yr un peth am y tymor, cwblhewch un daflen a nodwch hyn arni os gwelwch yn dda.

Parents are kindly asked to make every effort in ensuring their children attend school regularly and promptly by 9:00 a.m. each morning. If a pupil is ill, or has a medical appointment, you are asked to contact the school by telephone call or letter to inform us on the first day of absence and each day following this until return to school, please. If a child has a medical appointment, please provide the School Office with the appointment card / letter so this can be entered into the school's registration system. Also, all parents are kindly asked to complete and return to school an ***END OF DAY ARRANGEMENTS*** *sheet on Monday mornings please. If arrangements are likely to remain the same for the term, please state this on the form and send only one form at the beginning of the term for your convenience.*

CYFARFODYDD 'CWRDD Â'R ATHRAWON'
'MEET THE TEACHERS' MEETINGS

Eleni, bydd cyfarfodydd byr ar ddechrau'r tymor i'n holl rieni gwrdd â'r athrawon dosbarth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn dros GOOGLE CLASSROOM. Gweler yr amserlen isod. Bydd yr athrawon yn anfon dolen atoch maes o law. Cewch drefniadau gwahanol ar gyfer y dosbarth Meithrin maes o law.

This year, we shall be holding short meetings for all our parents to meet the class teachers. These meetings will be held over GOOGLE CLASSROOM. Please see the schedule below. The teachers will send links out shortly. Alternative arrangements for the Nursery class will follow shortly.

Derbyn *Reception*	**Miss Thomas**	**20.09.21**	**3:50 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm***
Blwyddyn 1 a 2 *Year 1 and 2*	**Mrs Burrows, Mrs Morrish & Mrs Hulse**	**21.09.21**	**3:50 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm***
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 and 4*	**Mr Jones, Mrs Jenkins & Mrs Flower**	**22.09.21**	**3:50 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm***
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 and 6*	**Miss Williams & Miss Jones**	**23.09.21**	**3:50 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm***

NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS



Yn dilyn y cyfarfodydd torfol 'Cwrdd â'r Athrawon', cynhelir Nosweithiau Agored Tymor yr Hydref i chi drafod ag athrawon eich plant un-i-un ar-lein ar Hydref 18fed a 19eg. Cadwch y dyddiadau hyn yn rhydd os gwelwch yn dda. Apwyntiadau 10 munud fydd y tymor hwn i drafod sut mae'ch plant yn ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at y dyddiadau hyn ynghylch y system bwcio apwyntiad ar-lein.

Following the whole group 'Meet the Teachers' meetings, Autumn Term Open Evenings for you to speak with your children's class teachers online on a one-to-one basis will be held on ***October 18th and 19th****. Please keep these dates free. These meetings will be 10 minutes long and offer you the opportunity to discuss how your children are settling in to their new classes. Further information will follow closer to these dates regarding the online appointment booking system.*

RHIENI DERBYN A BLWYDDYN 1
RECEPTION AND YEAR 1 PARENTS

Bydd Mrs Lisa Morrish a staff y dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1 yn cynnal cyfarfod dros GOOGLE CLASSROOM ar gyfer rhieni'r plant Derbyn a Blwyddyn 1 ar 27.09.21 am 3:50 yp i drafod cynllun ffoneg yr ysgol, Tric a Chlic.

Mrs Lisa Morrish and the staff in Reception and Year 1 classes will be holding a meeting over GOOGLE CLASSROOM on ***27.09.21*** *at 3:50 pm to discuss the Foundation Phase's phonics programme, Tric a Chlic.*

Tric a Chlic

cliciwch /*click*

ADDYSG GORFFOROL
PHYSICAL EDUCATION

Diwrnod *Day*	Dosbarth *Class*
Dydd Llun *Monday*	**5 & 10**
Dydd Mawrth *Tuesday*	**1 & 9**
Dydd Mercher *Wednesday*	**4 & 6**
Dydd Iau *Thursday*	**3 & 7**
Dydd Gwener *Friday*	**2 & 8**

CYNGHERDDAU NADOLIG
CHRISTMAS CONCERTS



Oherwydd cyfyngiadau a chanllawiau COVID-19, bydd ein cyngherddau Nadolig eleni yn cael eu ffilmio a'u gosod ar wefan yr ysgol erbyn diwedd y tymor. Os nad ydych yn fodlon i'ch plant ymddangos yn y fideos hyn, rhowch wybod i'r athrawon dosbarth os gwelwch yn dda.

Due to COVID-19 regulations and restrictions, our Christmas concerts will be filmed and posted on the school website by the end of term. If you do not wish for your children to appear in these recordings, please inform your class teachers.

APP YR YSGOL
THE SCHOOL APP

Cofiwch, os nad ydych wedi lawrlwytho App yr Ysgol mae perygl i chi golli negeseuon pwysig. Cliciwch ar yr eiconau isod i lawrlwytho'r App. Cofiwch fwrw golwg ar galendr y wefan, eich ebost ac adran RHIENI y wefan yn rheolaidd.

Remember, if you haven't downloaded the School App you are most likely missing important messages. Click on the icons below to download the App. Remember to look at the school website calendar and PARENTS section and your email regularly.



DIOGELWCH Y SAFLE
SITE SAFETY

Hoffem atgoffa pawb i beidio â gyrru i mewn i faes parcio'r ysgol ar unrhyw adeg er diogelwch y plant, rhieni a staff sy'n cyrraedd a gadael y safle, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, gofynnir yn garedig i chi beidio â gyrru trwy a pharcio ym mae bysiau'r ysgol os gwelwch yn dda.

We should like to remind everyone not to drive into the school car park at any time for the safety of children, parents and staff who may be arriving and leaving the site, please. By the same token, you are kindly asked not to drive through or park in the school bus bay please.

Cofiwch ymweld / *Remember to visit:* Calendr yr Ysgol / *School Calendar*

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL
EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES



Bydd ein gweithgareddau allgyrsiol yn ail-ddechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 13.09.21. Bydd y clybiau chwaraeon ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6, gydag ymarfer Côr ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 i 6, Clwb Garddio i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 ac Adran Yr Urdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 i 6 yn eu tro. Cofiwch fod yr holl fanylion hyn ar galendr gwefan yr ysgol. Cynhelir pob gweithgaredd rhwng 3:30 yp a 4:30 yp a diolch i chi am gasglu'ch plant yn brydlon tu cefn i'r ysgol.

*Extra-curricular activities will recommence during the week beginning **13.09.21**. The Sports Clubs are for Year 5 and 6 pupils, with Choir practice for pupils in Years 3 to 6, Gardening Club for Year 1 and 2 pupils and Urdd Club for pupils in Year 3 to 6. Please remember that these details are also to be found on the school website calendar. All activities are held between 3:30 pm and 4:30 pm. We thank you for collecting your children promptly at the rear of the building.*

Clwb Chwaraeon *Sports Club*					
Blwyddyn 5 *Year 5*	15.09	06.10	03.11	17.11	01.12
Blwyddyn 6 *Year 6*	29.09	13.10	10.11	24.11	08.12
Mrs Jenkins & Mr Jones					
Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.					
Please note there is no club some weeks due to other events.					

Clwb Garddio *Gardening Club*					
Blwyddyn 1 *Year 1*	16.09	07.10	04.11	18.11	02.12
Blwyddyn 2 *Year 2*	30.09	14.10	11.11	25.11	09.12
Mrs Burrows & Miss Thomas					
Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.					
Please note there is no club some weeks due to other events.					

Adran yr Urdd *Urdd Club*					
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	16.09	07.10	04.11	18.11	02.12
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 & 6*	30.09	14.10	11.11	25.11	09.12
Miss Jones, Mrs Flower, Mrs Hulse & Mr O'Neil					
Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.					
Please note there is no club some weeks due to other events.					

Côr *Choir*					
Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	14.09	05.10	02.11	16.11	30.11
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 & 6*	28.09	12.10	09.11	23.11	07.12
Mrs Morrish & Miss Williams					
Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.					
Please note there is no club some weeks due to other events.					

DIGWYDDIADAU A DYDDIADAU PWYSIG ERAILL
OTHER EVENTS AND IMPORTANT DATES

15.10.21	**Diwrnod Shwmae Su'mae /** *Shwmae Su'mae Day*
20.10.21	**Nyrs yr ysgol yn ymweld (Ffliw - llythyr i ddilyn) /** *School Nurse visits (Flu drops - letter to follow)*
22.10.21	**Diwrnod y Cenhedloedd Unedig (gwybodaeth i ddilyn) /** *United Nations Day (info. to follow)*
10.12.21	**Diwrnod Cinio Nadolig /** *Christmas Lunch Day*
10.12.21	**Diwrnod y Siwmperi Nadoligaidd /** *Christmas Jumper Day*
16.12.21	**Partion Nadolig y Cyfnod Sylfaen (llythyr i ddilyn) /** *Foundation Phase Christmas Parties (letter to follow)*
17.12.21	**Disgo Nadolig Cyfnod Allweddol 2 (yn ystod y dydd) /** *Key Stage 2 Christmas Disco (during the day)*
17.12.21	**Diwrnod Ola'r Tymor /** *Last day of Term*

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**